PWNC CRAIDD

# TGAU Cymraeg Craidd

Ydych chi eisiau gallu deall a defnyddio'r Gymraeg, iaith Cymru, yn hyderus a digymell? Ydych chi eisiau datblygu sgìl gwerthfawr ar gyfer defnyddio'r Gymraeg mewn astudiaethau pellach, yn y gweithle ac yn eich cymunedau? Ydych chi eisiau bod yn rhan o nod y llywodraeth a bod yn un o'r miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050? Dyma gymhwyster fydd yn gallu meithrin eich chwilfrydedd, datblygu eich sgiliau a strategaethau dysgu iaith ac agor drysau i astudiaethau pellach a swyddi yn y dyfodol.

## BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

Byddwch chi'n astudio **tair thema eang sef cynefin, hunaniaeth a diwylliant** ac o fewn y themau hyn byddwch yn dysgu:

- am werth y Gymraeg yn gymdeithasol ac yn y byd gwaith
- am ei defnydd yng Nghymru ac ar draws y byd
- sut i ddeall a defnyddio'r Gymraeg gydag eraill yn ddigymell a hyderus
- sut i ddatblygu sgiliau ar gyfer bywyd a gwaith
- sut i ymateb yn greadigol i lenyddiaeth.

## **UNED 1** (Ymateb i Sbardun Gweledol) & **UNED 2** (Ymateb i Ffynonellau Amrywiol)

Yn yr unedau siarad a gwrando yma byddwch yn dysgu sut i ddeall a defnyddio'r Gymraeg gydag eraill mewn ffordd ddigymell a hyderus drwy:

- wylio sbardunau gweledol (Uned 1)
- edrych ar ffynonellau amrywiol er enghraifft, graff / siart, ffeithiau a / neu ystadegau a delweddau (Uned 2)

## **UNED 3** (Paratoi at y Dyfodol) & **UNED 4** (Llenyddiaeth a Chreadigol)

Yn yr unedau yma byddwch yn datblygu'r ddwy sgìl, darllen ac ysgrifennu, drwy ymateb i destunau darllen ac ysgrifennu di-eiriau, ymarfer ac ymateb i amrywiaeth o ffurfiau iaith, ynghyd â:

- dysgu sgiliau hanfodol ar gyfer y dyfodol fel trawsieithu a chyfieithu (Uned 3)
- astudio straeon byrion a cherddi gosod (Uned 4)

Bydd pob uned yn seiliedig ar y tair thema eang.

## SUT BYDDAF YN CAEL FY ASESU?

ARHOLIAD - Bydd dau arholiad ysgrifenedig:

Uned 3 – 1 awr 30 munud; 100 marc; 25% o'r cymhwyster.

Uned 4 – 1 awr 30 munud; 100 marc; 25% o'r cymhwyster.

Bydd amrywiaeth o dasgau darllen gydag ymatebion di-eiriau ac ysgrifenedig yn y ddwy uned ynghyd â thasgau ysgrifennu disgrifadol, perswadiol, beiriniadol a mynegi barn (Uned 3) a thasgau ysgrifennu creadigol (Uned 4).

Yn Uned 3 bydd tasgau trawsieithu a chyfieithu yn cael eu hasesu ymhob cyfres. Yn Uned 4 bydd un testun gosod (o'r ddwy gerdd a'r ddwy stori fer) yn cael ei asesu ymhob cyfres. Byddwch chi'n cael gwybod cyn yr arholiad (Uned 4) pa destun gosod fydd yn cael ei ddefnyddio ymhob cyfres.

## ASESIAD DI-ARHOLIAD

Bydd dau asesiad di-arholiad:

Uned 1 – un asesiad llafar pâr (6-8 munud) / grŵp o dri (8-10 munud); 50 marc; 25% o'r cymhwyster.

Uned 2 - un asesiad llafar pâr (6-8 munud) / grŵp o dri (8-10 munud); 50 marc; 25% o'r cymhwyster.

## PA SGILIAU FYDDAF YN EU DATBLYGU?

- Sgiliau Siarad a Gwrando
  Byddwch yn datblygu eich sgiliau siarad a gwrando er mwyn gallu cyfathrebu, rhyngweithio, mynegi a chyfiawnhau barn a gofyn ac ymateb yn effeithiol i gwestiynau.

- Sgiliau Darllen ac Ysgrifennu
  Byddwch yn datblygu eich sgiliau darllen ac ysgrifennu er mwyn gallu deall ac ymateb i fathau gwahanol o iaith ysgrifenedig ar wahanol ffurfiau gan gynnwys iaith y byd gwaith ac ymateb i lenyddiaeth.

- Sgiliau Dadansoddi
  Byddwch yn datblygu eich sgiliau dadansoddi i ymateb yn feirniadol, gwerthuso pwyntiau perthnasol a datblygu syniadau mewn testunau a chyfathrebu llafar.

## GYRFAOEDD YM MAES CYMRAEG CRAIDD

## TGAU CYMRAEG CRAIDD

Mae swyddi sy'n cael eu hysbysebu yng Nghymru yn aml yn gofyn am y gallu i siarad Cymraeg fel rhywbeth hanfodol neu ddymunol. Os oes gennych chi gymhwyster TGAU Cymraeg Craidd a bod gan yr ymgeiswyr eraill sy'n ceisio am y swydd ddim y cymhwyster hwn, yna rydych chi ar y blaen i'r lleill cyn dechrau.

Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn bwysig ac o fantais ymhob maes gan gynnwys addysg, iechyd a gofal, y llywodraeth, y cyfryngau ac adloniant, chwaraeon, y gyfraith, marchnata a llawer mwy. Gallwch hyd yn oed gael swydd ym Mhatagonia yn ne America os ydych chi'n gallu siarad Cymraeg!

DEWCH I WYBOD MWY - SIARADWCH Â'CH ATHRO HEDDIW!

